



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Plas Carew, Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw, Caerdydd CF15 7QQ
Ffôn 0300 025 6000
E-bost cadw@llyw.cymru
cadw.gov.wales

Plas Carew, Unit 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw, Cardiff CF15 7QQ
Ffôn 0300 025 6000
Email cadw@gov.wales
cadw.gov.wales

Rheolwr Ystâd,
Ymddiriedolaeth Genedlaethol,
Castell Powys,
Y Trallwng,
Powys SY21 8RF.

Eich cyfeirnod
Your reference

Ein cyfeirnod
Our reference

Dyddiad
Date

Llinell
uniongyrchol
Direct line

E-bost
Email

PGW(Po)35(POW)

24 Ionawr 2020

[REDACTED]

[REDACTED].gov.uk

Y Gofrestr Statudol o Barciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru: Gerddi Castell Powys

Annwyl Syr/Madam,

Ysgrifennaf atoch ar ran Cadw gan fy mod ar ddeall mai chi yw perchennog neu feddiannydd y parc a'r ardd hanesyddol neu ran o'r parc a'r ardd hanesyddol Gerddi Castell Powys.

Fel y gwyddoch efallai, cydnabuwyd arwyddocâd hanesyddol Gerddi Castell Powys drwy ychwanegu cofnod at y gofrestr anstatudol o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru.

Gradd: I

Prif Resymau dros y Graddio: Gardd fyd-enwog o ddiddordeb hanesyddol a garddwriaethol eithriadol sy'n cynnwys y terasau gardd Baróc gorau sydd wedi goroesi o ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg / dechrau'r ddeunawfed ganrif yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys adardy ac orendy ac enghreifftiau o gerfluniau plwm cyfoes cain o stiwdio van Nost. Mae gan yr ardd hefyd haenau hanesyddol diweddarach; y gwaith tirlunio ar y brif lawnt ac yn yr ardaloedd gwyllt gan William Emes yn ystod y ddeunawfed ganrif a gardd pistyll a gwaith ailblannu o ddechrau'r ugeinfed ganrif ar y terasau.

O dan Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am lunio a chynnal cofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru. Bydd y gofrestr anstatudol bresennol yn sail i'r gofrestr statudol newydd. Er mwyn paratoi ar gyfer statws statudol, manteisiwyd ar y cyfle i adolygu maint pob parc a gardd hanesyddol sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd. Cyn penderfynu'n derfynol ar y gofrestr statudol a'i rhoi mewn grym yn ystod 2019-20, bydd Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) yn ymgynghori â pherchenogion a meddianwyr parciau a gerddi cofrestredig ar y cynigion sy'n deillio o'r gwaith adolygu hwnnw.

Felly, amgaeaf fap o Gerddi Castell Powys sy'n dangos yr ardal y bwriedir ei chofrestru'n statudol.

Mae croeso i chi anfon unrhyw sylwadau sydd gennych ataf erbyn 17 Ebrill 2020 er mwyn iddynt allu cael eu hystyried cyn penderfynu'n derfynol ar y gofrestr statudol. Os nad chi

Mae Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) yn hyrwyddo gwaith cadwraeth ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru a gwerthfawrogiad ohono.

The Welsh Government Historic Environment Service (Cadw) promotes the conservation and appreciation of Wales's historic environment.

Rydym yn croesawu goheblaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.
We welcome correspondence in both English and Welsh.



BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE



yw perchennog neu feddiannydd y safle cyfan, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i ni a oes gan unrhyw un arall ddiddordeb o'r fath yn y tir.

Bydd y gofrestr newydd yn helpu i lywio penderfyniadau ar ddyfodol safleoedd cofrestredig, ac nid yw'n cyflwyno unrhyw reolaethau rheoleiddio sy'n ychwanegol at y gofynion presennol i gael caniatâd cynllunio. Mae taflen ddefnyddiol sy'n cynnwys cwestiynau cyffredin yn amgaeedig.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gofrestr statudol, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Baswn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod ai yn Gymraeg neu'n Saesneg yr hoffech i ni ysgrifennu atoch yn y dyfodol.

Yn gywir,

A black rectangular redaction box covering the signature area.